



# Hysbysiad Preifatrwydd Trwyddedu a Gorfodi

Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yr UE yn cynnwys rheolau ynglŷn â rhoi gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion ac yn rhoi pwyslais ar wneud hysbysïadau preifatrwydd yn fwy tryloyw a hygyrch.

Mae'n rhaid rhoi hysbysiad preifatrwydd i'r unigolyn ar yr adeg pan fyddwn yn casglu ei ddata personol / bydd yn rhoi ei ddata personol i chi / Cyfoeth Naturiol Cymru. O dan y GDPR, mae'n rhaid i'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi i unigolion o ran sut y byddwn yn prosesu eu data personol fod:

- yn gyson, tryloyw a dealladwy ac yn hawdd cael mynediad ati
- wedi'i hysgrifennu gan ddefnyddio iaith glir a syml, yn enwedig os yw at sylw plentyn
- yn rhad ac am ddim

## Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheolydd data ac mae'n ymroddedig i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â'r GDPR.

## Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gallwch gysylltu ag ef drwy anfon e-bost at [dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu drwy ffonio 0300 065 3000.

## Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Rydym yn casglu data personol gennych er mwyn ein galluogi i brosesu ceisiadau am drwydded. Mae hyn yn cynnwys manylion am enw, rhif ffôn, rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost. Bydd angen eich manylion talu arnom ar gyfer trwyddedau mae angen talu amdanynt.

## Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Defnyddir eich data personol:

- i brosesu a chyflwyno trwyddedau ar gyfer y gweithrediadau yr ydych yn dymuno ymgymryd â nhw
- at ddibenion cydymffurfio
- i hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â'r gwaith yr ydych yn ei wneud drwy ddefnyddio ein cofrestr gyhoeddus a/neu roi hysbysiad cyhoeddus neu hysbyseb mewn papurau newyddion lleol
- i gysylltu â chi, yn ôl yr angen, ynghylch materion sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'ch trwydded.

Maes	Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?	Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?
Trwyddedu Morol	<p>Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS). Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Tŷ'r Drindod, Asiantaeth Morwrol Gwylwyr y Glannau, y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Awdurdod Harbwr Lleol, yr Adran Drafnidiaeth, Ystad y Goron / Ystad Swangrove (Ystad y Goron / Ystad Swangrove yw perchnogion y blaendraeth/gwely'r môr yn y rhan fwyaf o achosion), yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Lleol, Swyddogion Gorfodi Morol, y Gangen Forol, Adrannau Polisi Trafnidiaeth, Cynllunio a Phartneriaethau, y Gangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd, aelodau o'r cyhoedd</p> <p><b>Grŵp Rhanddeiliaid – yn cadw manylion personol</b></p>	<p>Deng mlynedd ar ôl y dyddiad dod i ben.</p> <p>Adolygu / Dileu</p> <p>Gwirio bob blwyddyn. Dileu ar gais</p>
Trwyddedu Coedwigaeth	<p>CADW, Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, Taliadau Gwledig Cymru Llywodraeth Cymru, Adrannau Polisi Coedwigaeth Llywodraeth Cymru, aelodau o'r cyhoedd</p>	<p>i) Trwydded ddiamod – Tair blynedd ar ôl i'r drwydded ddod i ben</p> <p>Adolygu / Dileu</p> <p>ii) Trwydded amodol – Pum mlynedd ar ôl i'r cyfnod cynnal a chadw deng mlynedd ddod i ben</p>

	<p>Ceisiadau am drwyddedau cwmpo coed – wedi'u gwrthod</p> <p>Ceisiadau am drwyddedau cwmpo coed wedi'u cyfeirio at awdurdod lleol o dan y rheoliadau Gorchymyn Diogelu Coed</p>	<p>Adolygu / Dileu</p> <p>Dileu ar ôl pum mlynedd</p> <p>Dileu ar ôl dwy flynedd</p>
Rhywogaethau	Awdurdodau Lleol, gwasanaethau heddlu lleol, Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain	<p>Deng mlynedd</p> <p>Dileu ar ôl y dyddiad dod i ben</p>
Gwastraff	Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Byrddau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gan gynnwys Ynys Môn, Gŵyr, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain, CADW, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS), yr Awdurdod Hedfan Sifil, Ecolegydd y Sir, y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Grid Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dŵr Cymru, Severn Trent Water, Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Byrddau Iechyd Cymru: Betsi Cadwaladr / Hywel Dda / Abertawe Bro Morgannwg / Caerdydd a'r Fro / Cwm Taf / Aneurin Bevan / Addysgu Powys, pob awdurdod lleol yng Nghymru, aelodau o'r cyhoedd	<p>Saith mlynedd ar ôl y dyddiad dod i ben.</p> <p>Adolygu / Dileu</p>
Ansawdd Dŵr	Parciau Cenedlaethol, ymgymerydd dŵr (Dŵr Cymru yn bennaf), yr Awdurdod Harbwr, CADW, British Waterways, Natural England, awdurdodau lleol – Iechyd yr Amgylchedd, Ecolegydd y Sir, aelodau o'r cyhoedd	<p>Saith mlynedd ar ôl y dyddiad dod i ben.</p> <p>Adolygu / Dileu</p>
Diwydiant a Reoleiddir	Natural England, adran amddiffyn yr amgylchedd yr Awdurdod Lleol, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yr ymgymerydd carthffosiaeth lleol a/neu ymgymerydd	Saith mlynedd ar ôl y dyddiad dod i ben

	dŵr lleol, yr Awdurdod Harbwr Lleol, y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Lleol (Lloegr) a/neu Llywodraeth Cymru (Cymru), yr Awdurdod Porthladd Lleol, British Waterways, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Lleol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a/neu Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub, Adrannau Iechyd Anifeiliaid, yr Awdurdod Hedfan Sifil, y Grid Cenedlaethol, aelodau o'r cyhoedd	ben. Adolygu / Dileu
Adnodd Dŵr	Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, CADW, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ymddiriedolaethau Archaeolegol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, ymgymerydd dŵr statudol, yr Awdurdod Llywio, yr Awdurdod Harbwr, yr Awdurdod Ceidwadol, aelodau o'r cyhoedd  Y Gofrestr Cydsyniadau	Saith mlynedd ar ôl y dyddiad dod i ben.  Adolygu / Dileu  20 mlynedd  Adolygu / trosglwyddo i'r Archifau Cenedlaethol

### Beth yw hawliau'r unigolyn?

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich data; diwygio eich data a dileu eich data unwaith bod y cyfnod cadw perthnasol wedi dod i ben.

Gallwch hefyd ddewis beidio â derbyn unrhyw wybodaeth gyffredinol (e.e. cylchlythyrau) a fydd yn cael ei hanfon atoch o bosibl.

### Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael mynediad at eich data personol;
- gwrthwynebu i ni brosesu eich data personol;
- diwygio eich data personol;
- dileu eich data personol;
- rhoi cyfyngiadau ar brosesu eich data personol;
- trosglwyddo eich data personol.

Ewch i'r tudalennau diogelu data ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau.

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru: -

**E-bost– [dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)**

**Swyddog Diogelu Data  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Maes y Ffynnon  
Ffordd Penrhos  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2DW**

### **Diogelwch eich gwybodaeth**

Rydym yn defnyddio Microsoft Office 365 a Microsoft Azure i storio ein dogfennau busnes swyddogol – mae'r ddwy system hon yn bodloni achrediad "SWYDDOGOL" Llywodraeth y DU.

### **Pa ddata sy'n cael ei ystyried yn "SWYDDOGOL"?**

Bydd yr HOLL fusnes arferol yn y sector cyhoeddus, gweithrediadau a gwasanaethau, a'r data sydd ynghlwm â nhw yn cael eu trin yn SWYDDOGOL

Mae enghreifftiau o fusnes SWYDDOGOL yn cynnwys:

- Y busnes o ddydd i ddydd o lywodraethu, cyflawni gwasanaethau ac ariannu cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd, cyfiawnder troseddol a gweithgareddau gorfodi
- Gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw'n ddiogel o dan ddeddfwriaeth diogelu data (sy'n cynnwys, er enghraifft, data megis cofnodion iechyd)

### **Sut i wneud cwyn**

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF**

**[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)**